

UFO yng nghanol y ddinas



Ar ôl misoedd o ddatblygu tu ôl i luniau a goleuadau a ffensys pren, datgelwyd y campwaith newydd o flaen y castell. Wrth gerdded dros bont Treganna, heibio i'r Stadiwm a gwesty'r Holiday Inn, daw'n amlwg bod rhywbeth wedi newid yn nhirlun y ddinas. Mae'r sgaffaldiau wedi'u tynnu i ddatgelu cloc tlws y castell unwaith yn rhagor, a rhywbeth digon tebyg i sgaffaldiau wedi ymddangos ar draws yr olygfa. Mwy'n sydyn, mae na rywbeth na ellir ond ei alw yn 'strwythur' yn rhwystro'r olygfa o'r hen waliau cerrig - yn stribedi modern o ddeunydd dienw coch, gwyn a du. Ac yn lle sribyn braf o borfa las i ymlacio ynddo rhyw amser cinio yn haul braf Mehefin - iawn, yn cuddio rhag y colomennod budur a'r gwylydan ceurus ac yn ceisio cyraedd man uwchlaw bloeddio traffig canol y dre - bellach mae yna gyfleuster arloesol newydd ar ben slabyn mawr o goncrit llwyd lle gall ymwelwyr â'r ddinas hardd brynu tocynnau i'r castell a phob math o swfenîrs o Gymru. Dychmygwch yr holl drugareddau Cymreig y gallwch eu canfod yno - o lyfr ryseitiau o Gymru, i gemwaith, i deganau meddal ar ffurf paen a phlu y peunod eu hunain, i grysau-t gyda chartwn o ddraig goch ifanc ("Am I cute or am I cute?"). Wel, does yna unman arall yn yr ardal yn gwerthu trysorau o'r fath, nac oes?

Barn un fenyw, yw hyn, wrth gwrs, ac mae'n rhaid bod y sawl a'i dyluniwyd ac a'i comisiynwyd yn gweld gwerth mawr yn y strwythur. Ond dal fy anadl ydw i - mae na luniau a ffensys pren yn dal heb eu tynnu ymhellach ar hyd y waliau cerrig. Tybed pa wledd weledol a/neu fasnachol sy'n ein disgwyl y tu ôl iddyn nhw...

Coed-y-Gof yn dweud 'Ciao' wrth Foggia!

Ychydig iawn a feddylion wrth i ni yn Uned Coed-y-Gof astudio'r Eidal yn nhymor yr hydref, y byddem yn ymweld â'r wlad yn nhymor yr haf.

Na! Roedd un o'n rhieni yn hollol o ddifrif wrth amlinellu yn ei sgwrs fuddiannau addysgiadol 'ymweliad' o'r fath. Beth? Dysgu a bwyta pîssa yr un pryd? Roedd e'n gyfle rhy dda i'w goll!



Ar 12 Mai hedfanodd criw ohonom, yn blant, rhieni ac athrawon o Faes Awyr Caerdydd i Napoli. O, y fath antur a'r fath olygfeydd gwych o'r Alpau oddi tanom.

Wedi cael noson dda o gwsge yng Ngwesty'r San Germano, ymlaen â ni i ymweld ag olion tref hynafol Pompeii, a'r hen Vesuvius yn llychlyd hepiant uwch ein pennau. Y fath awyrgylch, a ninnau'n cael ein hamgylchynu gan yr amffitheatr enfawr, y plant yn cogio ymladd, a bonllefau'r gladiatoriaid yn hunllefus ddisgyn ar ein clustiau wrth i ni ymadael!

Ar ôl taith 230 cilometr, cyraedd tref Foggia sydd nepell o dref o'r enw Bari. Roedd hynny yn ein gwneud yn reit gartrefol! Ben bore Llun, mynd yn y bws mini i ysgol AS.SO.RI (Associazione per la Promozione Socio Culturale Sportivo Dilettantistica e la Riabilitazione del' Handicappato) lle cawsom groeso twymgalon tros ben. Ysgol breifat yw AS.SO.RI sy'n barod i dderbyn plant mor ifanc â 4/5 mis. Roedd cyfartaledd o 15 o blant ym mhob dosbarth ynghyd â dwy athrawes, un gynorthwywraig ac un

seicolegydd. Roeddent wedi paratoi rhaglen waith gynhwysfawr i'n disgyblion ni, y rhieni a'r athrawon am ddau ddiwrnod gan adael i'r oedolion ymweld â rhai dosbarthiadau a gwylio gwersi (mewn Eidaldeg wrth gwrs!) Braf oedd gweld dau neu dri phlentyn ag anghenion arbennig yn cael eu cynnwys, eu cynnal, a'u caru ym mhob dosbarth. Dyma yn wir oedd sail athroniaeth yr ysgol, gan sicrhau gofal ac addysg gydol oes i'r plant hyn. (Roedd rhai disgyblion yn eu tridegau!)

Roedd caredigrwydd ein ffrindiau Eidalaidd yn amlwg gan iddynt drefnu gwibdaith i ni hefyd i draeth Mattinata ar lan yr Adriatic. Er bod y tywydd yn hyfryd o boeth, roedd y môr yn ddigon oer a bodlonodd rhai ohonom ar fracso yn unig! Yn ôl, wedyn, yr holl ffordd i Napoli a chael diwrnod arall i fwynhau golygfeydd hardd y Bae.

Parhad ar dudalen 4

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd

Roedd nifer o'r ardal wedi teithio i Eisteddfod Sir Ddinbych yn Rhuthun. Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran ac i'r enillwyr ar dudalen 12.



Ceri Elen, Aelwyd CF1, enillydd y Fedal Ddrama

Gwledd



Llongyfarchiadau i Menter Caerdydd a'u partneriaid am drefnu wythnos wych o weithgareddau Cymraeg ar gyfer trigolion y ddinas. Mae pawb yn edrych ymlaen at flyyddyn nesaf!

Noddir y rhifyn hwn o'r Dinesydd gan gwmni



Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Elen Robert

Golygydd y rhifyn nesaf:
D. Bryan James

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi 2006 erbyn 25 Awst at:
D. Bryan James, 52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd CF5 2QB
(e-bost: db.james@ntlworld.com;
ffôn: 029-2056-6731)

neu at Gadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd:
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr
Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk
ffôn: 029-2062-8754).

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan
Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan gweHendre
a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CALENDR

Anfonwch eitemau at

Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas. Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd* cysylltwch â Siân Lewis: 029 20565658. sian@dinesydd.com.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Rydym yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at: Trysorydd y *Dinesydd*, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14 2FG.

HYFFORDDWR BYWYD

Camu mewn i diriogaeth newydd?


Siaradwch â Stephen Powell

("Dyn eich dyfodol" yn ôl Golwg)

ynghlyn â sut i symud tuag at yr anhysbys gyda hyder.

Ffon: 01873 890032
www.gaiacoach.co.uk

CROESAIR Rhif 66 gan Rhian Williams



Atebion i:
22, Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd. CF14 6AN i gyrraedd erbyn 25 Gorffennaf 2006.

Ar Draws

1. Ffon yng nghesail pelican seneddol (6)
5. 'Mae carcharorion angau, Yn _____ o'u cadwynau' (E.R) (5)
9. '_____ nad yw yn marw, A'r twllwch dudew byth' (W.W) (1,4)
10. Dwyn tad arall o'i go' (7)
11. Crefyddau o oed caru creadigol (7)
12. Trechu drwy ddechrau cofio unig rybudd Owain. (4)
14. '_____ dlodi - nid cerrig Ond cariad yw'r meini (RWP) (10,3)
17. Gorchest y camwri tawel (4)
18. 'Rhodiaf hefyd mewn _____: oherwydd dy orchymynion di a geisiaf (Salmau) (7)
21. A oes un dlawd yn yr Eglwys? (7)
22. Dilyn y lôn sathredig a'r 'Bedol'. (5)
23. Mae niwl yn troi'n ddu yn y nen (5)
24. Cnoi cil mae lorweth bach wrth dwtio (6)

I Lawr

2. Aeth yn sgarmes ar yn ail rhwng y sarff a'r badell (5)
3. 'Cyfamod hedd, cyfamod cadarn Duw Ni _____, nid ie a nage yw:' (EJ) (4,1'1,2)
4. 'Heb haul _____, _____ unrhyw seren dlos' (WJ) (2,5,3,3)
5. 500 a 550 yn ymryson (4)
6. Yr anabl yn peintio llun o Aga (7)
7. Cuddio fod treth ar werth wedi codi o fewn 'co (5)
8. Cana ac aflonydda 'nap' y ci. (6)
13. Mae y fam yng nghanol codi i wneud ymrwymiad (8)
15. Dangos parch i'r meddyg druan am ddilyn Edward bach. (7)
16. Ofnus yw y sêr fu'n ffrwydro (6)
17. Pren cnau cyfan mewn haenen (5)
19. A yw dy sir yn llawn mieri? (5)
20. A oes lle poeth yng ngwaelod y nyth? (4)

Atebion Croesair Rhif 65

Ar draws: 1 Mwynder. 4 Ticed. 7 Hollol. 8 Trachefn. 9 Ficerdy. 10 Dilys. 11 Gwir. 12 Agor. 16 Ffrind. 18 Gwasgfa. 20 Afiechyd. 21 Tranc. 22 Cynan. 23 Gwregys.

I Lawr: 1 Mehefin. 2 Yn llac. 3 Dilorni. 4 Tlawd. 5 Caerlyr. 6 Dynes. 8 Twyll. 11 Gwchian. 13 Gwacter. 14 Gwancus. 15 Sgwd. 16 Ffranc. 17 Dychan. 19 Graig. Derbyniwyd 10 ymgais a'r cyfan yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr y tro hwn i Eira Jones, 42 Rhydelyg Ave, Mynydd Bychan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Mel Dunsford, Gaenor Hall, Gwenda Hopkins, Margaret Jones, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Catrin Rowlands, Huana Simpson a James Wiegold.

Ysgol Berllan Deg ar dripiu!!

Tymor y tripiu yw hi wedi bod, gyda nifer o'r disgyblion yn dysgu drwy ymweld â llefydd gwahanol. Y Dosbarth Derbyn oedd y rhai cyntaf i fynd, ac aethant i Fferm Cefn Mabli. Aeth Blwyddyn 3 i ymweld â'r Pentref Celtaidd yn Sain Ffagan ac aeth Blwyddyn 4 i ymchwilio i fywyd gwyllt y Bae. Cafodd Blwyddyn 5 a 6 drip i Amgueddfa Imperial War yn Llundain i weld arddangosfa Yr Ail Ryfel Byd, Arddangosfa 'Sut i Ddianc'! a Rhyfel y Plant. Roedd yn daith lwyddiannus a mwynhaodd y rheini gymaint â'r plant!

Aeth criw o'r disgyblion i ddiddanu Clwb Hamdden Capel Minny Street, ac roedd y disgyblion wrth eu boddau yn cael cynulleidfâ mor wrandawus.

Daeth rhai pobl i mewn i ymweld â ni hefyd! Daeth chwaraewyr grŵp Jazz i gynnal gweithdy gyda Blwyddyn 4, 5 a 6. Roeddent yn dda iawn, gan roi cyfle i'r disgyblion ymuno i chwarae'r offerynnau gyda nhw. Daeth Theatr Iolo i ddiddanu Blwyddyn 3, gyda'u sioe 'Sibrwd yn y Nos'.

Merched y Wawr Bro Radur

Dydd Sadwrn 10 Mehefin, aeth bron i ugain o aelodau Merched y Wawr Bro Radur i'r Bae yng Nghaerdydd i ymweld â'r Senedd. Ein tywysydd o gwmpas yr adeilad oedd Mr Richard W Jones, ac aeth â ni i'r Neuadd a'r ystafelloedd pwyllgora mewn ffordd ddi-ddorol a phroffesiynol dros ben. Diolch yn fawr i Richard. Roedd pawb wedi mwynhau'r ymweliad yn ogystal â'r tywydd braf i lawr yn y Bae.

Rydym yn cyfarfod fel cangen eto ar 6 Medi. Croeso cynnes i bawb.



Ondych chi jyst yn lyfio'r Orient, Charlotte!

Beth bynnag fo chwaeth y gantores bop ar ei newydd wedd mewn creision coeth, bwyd Japan yw fy ffeffryn i. Ro'n i wrth fy modd, felly, yn darganfod nad oes yn rhaid i mi mwyach dalu crochris amdano yn y Bae, mentro i ganol heip y dre nac ymlwybro ar draws y ddinas i'w brofi yn y Rhath. Pam? Am fod yna le newydd wedi agor lawr y stryd yn Nhreganna. I'r rhai ohonoch nad ydych eioedd wedi rhoi cynnig ar y pysgod amrwd, waeth cynndrwyg yw'r syniad, mae sushi, a bwrw fod y pysgod yn ffres, yn toddi ar eich tafod. Ac mi roedd yn ffres ar fy ymweliad i ag Ichiban. Ond os yw meddwl am y pysgod yn codi cyfog arnoch chi, mae digon o ddewis arall i'w gael. Beth am drïo goyoza, sef rhyw fath o barseli bychain wedi'u llenwi â chymysgedd cyw iâr neu lysiau, neu *tempura*, sef corgimwch neu lysiau wedi'u ffrio'n ddwfn mewn cyteu ysgafn. Neu beth am roi cynnig ar bryd o nwdls neu reis wedi'u paratoi'n arbennig? Ac ar ben y cyfan, ychydig o *sake*. Math o win o reis yw'r ddioid hon, a'r disgrifiad gorau ohoni yw cymysgedd rhwng gwin gwyn a tequila. Mewn gwirionedd, mae'n llawer gwell na hynny, a gallwch ei archebu'n boeth neu'n oer.

Ar ben y bwyd bendedig, mae'r awyrgylch yn braf, y staff yn dwymgalon, y prisiau'n rhesymol a'r lle'n llawn siaradwyr Cymraeg.

Dyma ychydig o gynghorion i chi wrth fynd i dŷ bwyta Japaneaid:

peidiwch â rhoi saws ar ben eich reis – mae'n gwneud i'r reis ddatod ac yn amhosibl i'w fwyta gyda'r hen chopstics;

peidiwch â rhoi'r chopstics i orffwys yn y reis – mae reis yn sanctaidd yn Japan;

sinsir wedi'i biclo yw *gari*, a gewch chi gyda sushi. Cymerwch ddarn rhwng pob darn o sushi er mwyn glanhau'r geg ar gyfer y darn nesaf;

daw saws soia a phast gwyrdd poeth iawn o'r enw *wasabi* gyda sushi hefyd. Os

mynnwch, rhowch ddarn bach o wasabi ar flaen eich ffon, ei gymysgu yn y saws soia ac wedyn rhoi'r sushi yn hwn cyn ei fwyta (yn gyflym cyn i'r reis ddatod);

dyletswydd y fenyw yw sicrhau bod digon o sake yng nghwpan y dyn. Mae'r cwpanau'n fach iawn ac felly gall hyn fod yn llawer o waith. Ychydig yn nawddoglyd i'r ffeminist efallai, ond mae'n hwyl chwarae rôl weithiau!

Oes gennych chi farn am agwedd ar y ddinas? Ble yw'r lle gorau i fynd am bryd o fwyd, am noson allan neu ar brynhawn dydd Sul? Neu a oes rhywbeth sy'n eich cythruddo chi? Rhannwch eich dinas chi gyda ni, ac anfonwch gyfraniad at olygydd y mis.

Cymraeg yn y Cyngor

Cymeradwywyd Cynllun Iaith diwygiedig Cyngor Caerdydd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y 5ed o Fehefin 2006. Mae'r Cynllun yn nodi sut bydd y Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghaerdydd.

Yn ôl y Cyngor, fel Prifddinas, mae Caerdydd yn cynrychioli Cymru ac felly dylai'r ddelwedd gorfforaethol sydd ganddi adlewyrchu'r ffaith honno. Mae'r Cyngor eisoes yn darparu nifer o wasanaethau Cymraeg i drigolion y ddinas, megis papur newydd y *Capital Times*, canolfan gyswllt C2C a phob etholiad a digwyddiad dinesig ers 2004. Rhif ffôn y llinell Gymraeg yw 029 2087 2088.

Gwasanaethau Cyfieithu
Morgannwg Gwent

GWASANAETH CYFIEITHU AR BAPUR
(SAESNEG – CYMRAEG / CYMRAEG - SAESNEG)

GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD
(CYMRAEG – SAESNEG)

GWASANAETH LLOGI OFFER CYFIEITHU

GWASANAETH O SAFON AM BRIS RHESYMOL

RHIAN POWELL, CYFIEITHYDD CYMUNEDOL
MENTRAU MORGANNWG GWENT

01685 877183

rhianpowell@menteriaith.org

HWYL YR URDD

Diwrnod Hwyl y Fro

Ar 16 Mehefin roedd bwrlwm mawr ym Mharc Jenner, Y Barri. Daeth 1,300 o blant ysgolion cynradd y Fro at ei gilydd i ddathlu Cymreictod yn Sir Bro Morgannwg. Daeth yr Urdd a Chyngor Sir Bro Morgannwg at ei gilydd i drefnu diwrnod o hwyl yng nghwmni Eddie Buttler (Iwan John) i ganu caneuon y Jambori. Yna yn y prynhawn, fe gynhaliwyd Twmpath enfawr dan arweiniad Goronwy Jones o Ddawnsywyr Caerdydd. Roedd hi'n amlwg bod y plant wedi bod yn ymarfer y dawnsfeydd ers wythnosau, o edrych ar safon y dawnsio. Roedd hi'n ddiwrnod crasboeth, felly rhwng y canu a'r dawnsio roedd cyfle i wlyio grŵp Triongl yn perfformio ar y llwyfan gyda Mistar Urdd, Sali Mali a Sam Tân. Erbyn diwedd y dydd roedd pawb wedi blino, ond wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr iawn. Roedd hi'n braf gweld ysgolion Cymraeg y Fro a'r ysgolion ail-iaith yn cael hwyl mewn awryglych Cymreig!

Clwb Pêl-droed Yr Urdd ar Daith

Ar ôl tymor caled iawn i dimau'r Urdd dan 13 a 14 yng nghynghrair Caerdydd a'r Fro (y ddau dîm wedi gorffen yn y 3ydd safle yn y gynghrair) roedd hi'n amser ymlacio a mwynhau triplau diwedd tymor. Dros benwythnos gwlyb ym mis Mai teithiodd y tîm dan 13 i Ogledd Cymru i chwarae yn erbyn Ysgol y Berwyn, y Bala, lle buon nhw'n anlwcus i gollu 3-1 mewn gêm agos dros ben. Nid oedd y bechgyn am i'r canlyniad, na'r tywydd ddifetha'u penwythnos, a chafwyd lot o hwyl ar y cwrs rhaffau uchel yng Nglan Llyn ac wrth ddringo'r Wyddfa.

Roedd hi'n stori go wahanol i'r bechgyn dan 14 ar eu taith i Iwerddon. Ar ôl saethu paent at ei gilydd ym mynyddoedd Wicklow am fore cyfan, roeddent yn fuddugol yn eu gêm yn erbyn Tref Arklow ar bryn hawn braf ddechrau Mehefin. Roedd hi wir yn waith tîm, ond cafwyd perfformiadau campus gan Tom Sennitt, Tom Mabbs (Glantaf), Rhys Sutcliffe, Tom Walbeoff (Plasmawr).

Da iawn i'r bechgyn a ymunodd gyda'r Urdd ar y teithiau.

Sesiynau Pêl-droed

Bydd sesiynau pêl-droed yn aildechrau ar ddydd Sadwrn cyntaf mis Medi o 9am -10am ar gaeau Llandaf. Croeso i blant sy'n mynychu ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd. Yr Urdd yw'r unig dîm pêl-droed Cymraeg i blant yn y brifddinas, gyda 10 tîm yn chwarae yng nghynghrair Caerdydd a'r Fro bob bore dydd Sadwrn. Bydd tîm newydd dan 8 (blwyddyn 3 o fis Medi 06) yn cael ei ddewis yn ystod mis Medi er mwyn cychwyn yn y gynghrair fis Hydref. Bydd y tîm newydd yn ymarfer bob nos Fawrth ar gae astro Tal-y-bont rhwng 5 a 6. Am fwy o wybodaeth am Glwb Pêl-droed yr Urdd Caerdydd, cysylltwch gyda James Rhys Williams ar 02920 635684



Tîm pêl-droed dan 14



Tîm pêl-droed dan 13



Twmpath enfawr ym Mharc Jenner

Newyddion

Paratoi at Eisteddfod 2008

Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghapel Bethany, Rhiwbina, nos Lun 22 Mai, gyda'r bwriad o sefydlu Pwyllgor Codi Arian yng nghylchoedd Rhiwbina a Llanisien ar gyfer Cronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch 2008. Pennwyd nod o £20,000 i'r ddwy ardal. Etholwyd y canlynol i arwain yr ymgyrch codi arian, sef Alun Guy yn Gadeirydd; Gwilym Roberts yn Is-gadeirydd; Martin Gwynedd yn Ysgrifennydd; a Cynthia Evans yn Drysorydd.

Dau Faer Newydd - Caerdydd a'r Fro

Cynghorydd Ceidwadol yn Rhiwbina ydy Gareth Neal, a fydd yn Arglwydd Faer Caerdydd yn ystod y flwyddyn 2006/2007, tra mai Cynghorydd Plaid Cymru ydy Nic Hodges, y Barri, a etholwyd yn Faer Cyngor Bro Morgannwg. 45 oed ydy e, ac ef ydy'r ifancaf i gael ei ethol yn faer y Sir. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Cyfarfod Blynnyddol yn Rhiwbina

Cynhaliwyd cyfarfod blynnyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yng Nghapel Bethany nos Lun 19 Mehefin. Ailetholwyd y swyddogion, sef Falmai Griffiths yn Gadeirydd; Ann Brain yn Ysgrifennydd; a Gwyneth Jennings yn Drysorydd. Yn dilyn y cyfarfod busnes, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gan y gwyddonydd a'r uwch-ddarlthydd, Dr Hefin Jones, gynt o Bencader.

Priodasau

Llongyfarchiadau i...

Owen Jones, mab Alan a Chris Jones, yr Eglwys Newydd, ar ei briodas â Simonette Mallard o Christchurch, Seland Newydd, ar 23 Mai. Bu ef a'i briod yn dysgu Saesneg yno am ddwy flynedd ond byddan nhw'n dychwelyd i Gymru yn yr hydref.

Dylan Ebeneser a Janet Davies ar eu priodas ar 29 Ebrill yn Eglwys Sant Paul, Cwm Ifor, ger Llandelo.

Rhodri Tilsley a Haf Williams ar eu priodas yng Nghapel Seilo, Caernarfon, ar 20 Mai. Bu'r wledd ym Mhort Meirion ac maen nhw wedi ymgartrefu yn Radur.

Huw Thomas a Gwenan Huws ar eu priodas yng Nghapel Bethlehem Gwaelod y Garth ar 16 Mehefin.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i...

Delyth Morgan a Kasey Coghlan, Treganna, ar enedigaeth Seren Morgan Coghlan ar 28 Mai.

Sybil Barr a Tim Kinnaird, Llanisien, ar enedigaeth Daisy Sarah Anna yn ysbyty'r Brifysgol ar 16 Mai. Wyres fach arall i Dr Ben a Sarah Barr, Rhiwbina.

Aled Stevenson ac Angharad Thomas, Treganna, ar enedigaeth eu merch, Magi Gwen, yn ysbyty'r Brifysgol ar 14 Mawrth. Wyres i Peter ac Ann Stevenson, Rhiwbina, ac Iwan Thomas a Stella Mair.

Taith i'r Eidal (O dudalen 1)

A beth oedd barn y plant am hyn i gyd? Mae'n amlwg bod Eban yn meddwl bod eu pasta yn wych! "Roeddwn i'n hoffi tref Pompeii" oedd ymateb Rhydian. Yn ôl Jacob "Roeddwn i'n hoffi'r hotel a'r bwyd". Prif sylw Dafydd oedd "Roedd chwarae pêl fâsged yn y pwll nofio yn yr ysgol yn ffantastig!" Cafodd y plant brofiad a blas arbennig ar fywyd Eidalaid gan ddsygu am addysg wahanol a geirfa newydd yn cynnwys 'buon giorno', 'ciao' 'quanto costo?' ac wrth gwrs 'gelato'!

Un o nodau'r daith oedd cadarnhau gefeillio gydag ysgol AS.SO.RI a chryfhau ein perthynas â hwy fel bod plant, athrawon a swyddogion yr ysgol yn dod yn ôl i ymweld â Choed-y-Gof. Mae trefniadau am ymweliad yn barod ar y gweill. Edrychwn ymlaen at weld ein ffrindiau newydd yn dod atom i brofi diwylliant ein cenedl!

Diolchwn yn fawr i Elen Rhys, Eryl Wyn Rowlands a Mike Hayes (Prifathro) am eu trefniadau perffaith!

Pasport

**Dyma golofn sy'n holi Cymry
Cymraeg sy wedi symud i'r
Brifddinas dros y blynyddoedd
diwethaf.**

**Merch o'r gogledd,
Bethan Mair Williams
sy'n cael ei holi y mis yma...**



O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?
Caernarfon

Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?
City Gardens

Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?
Ers chwe blynedd

Beth fuest ti'n ei wneud ar ôl symud yma?
Penderfynais i ddod i Gaerdydd er mwyn astudio Cymraeg yn y Brifysgol. Yn ystod y tair blynedd cefais y cyfle i weithio am ddiwrnod yn wythnosol ar y Llinell Gyswllt ym Mwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar y Llinell ro'n i'n ymddrin â gwahanol fathau o ymholiadau am yr iaith.

Yn ystod yr haf ro'n i'n mynd nôl i Gaernarfon i hyfforddi tenis yn y Ganolfan Denis. Un o'r profiadau gwerthfawr gefais i ar ddiwedd fy ail flwyddyn oedd mynd i wlad Groeg i hyfforddi tenis mewn gwersyll rhyngwladol yn Halkidiki.

Ar ôl graddio es i Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd i wneud cwrs TAR ymarfer dysgu Cynradd gan wneud tymor o brofiad yn Ysgol Gymraeg Casnewydd a thymor yn Ysgol Pencae.

Lle ti'n gweithio erbyn hyn?

Erbyn hyn dwi'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Treganna yn dysgu dosbarth Bendigeidfran, sef blwyddyn 4. Rhaid dweud fy mod i wrth fy modd yn dysgu ac mae'r profiadau dwi wedi'u cael hyd yn hyn wedi bod yn arbennig iawn.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?

Yn fy amser hamdden bydda i wrth fy modd yn cymdeithasu â ffrindiau. Dwi'n agos iawn at fy chwaer hefyd. Mae hi a'i gŵr yn byw yng Nghaerdydd a dwi'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am fy mwydo i'n aml! Yn ogystal â hyn, dwi'n aelod o Aelwyd CF1 ac ers i'r aelwyd ffurfio dwi wedi cael y pleser o berfformio ar lwyfanau Cymru. Profiadau sy'n aros yn y cof yw perfformio yn agoriad swyddogol Canolfan Mileniwm Cymru a chyngerdd agoriadol yr Urdd yn y Ganolfan. Mae canu a cherddoriaeth yn bwysig iawn yn fy mywyd i ac yn wir dwi'n canu o hyd!

Mae chwaraeon wedi bod yn rhan annatod o fy mywyd i a rhaid dweud mai tenis yw fy hoff gêm. Yn ystod yr haf dwi'n bwriadu chwarae dipyn mwy o'r gêm. Hefyd bydda i'n mynd i'r gampfa i wneud ychydig o ymarfer corff bob wythnos.

Be sy'n gwneud i ti gochi? Yr haul!

Lle ydi'r manau gorau i fynd allan yng Nghaerdydd?

Gyda chwmmi da mae pob man yn hwyl yng Nghaerdydd. Yn yr haf does dim byd gwell na mynd i'r Bae. Mae 'na ryw deimlad cyfandirol yno a digon o lefydd i gael bwyd!

Lle ti'n hoffi mynd am wyliau?

Un o fy hoff wledydd yw'r Eidal. Erbyn hyn dwi wedi bod i'r wlad nifer o weithiau. Profiad sy'n aros yn y cof yw ymweld â spa naturiol ar ynys Ischia. Des i oddi yno fel person newydd! Yn ogystal â hyn yn yr Eidal mae digon i'w weld, mae'r bwyd yn ffantastig a dydy'r gwin coch ddim yn rhy ddrwg chwaith!

Petaet yn cael miliwn o bunnoedd i'w wario ar Gaerdydd, beth fyddet ti'n ei wneud?

Mi wna i addasu'r cwestiwn ychydig os yw hynny'n iawn! Gyda miliwn o bunnoedd buaswn i'n hoffi gwella'r ffordd A470 rhwng y de a'r gogledd. I fynd o Gaerdydd i Gaernarfon mae'n cymryd pedair awr o leiaf ac mae'r ffordd yn droellog a'r daith yn ddiffas.

Pam?

I weld fy nheulu a'm ffrindiau yn amlach yng Nghaernarfon.

Lle ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?

Dwi'n gobeithio y bydda i'n hapus, mewn iechyd da, wedi priodi ac yn byw yng Nghymru.

Yn priodi cyn bo hir?

**Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?**

Felly,

Gwasanaethau 007

amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIAN TWPMPATH
SYSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu
029 2020813812
ceri33@btopenworld.com

Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt



CYRSIAU CYMRAEG I OEDOLION

www.caerdydd.ac.uk/cymraeg/canolfan

Ydych chi'n chwilio am gyfle i wella neu loywi'ch Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn cynnal nifer o gyrsiau ar adegau amrywiol yng Nghaerdydd a'r Fro yn dechrau ym mis Medi 2006 a thrwy gydol 2006-2007.

Cynhelir cyrsiau Pellach, Uwch a Meistroli mewn lleoliadau fel Llandaf, Bae Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Ysgol y Creigiau, a Threganna. Cynhelir cwrs haf hefyd bob blwyddyn yng Nghaerdydd (preswyl neu ddi-breswyl) rhwng canol Gorffennaf a dechrau Awst. Mae'r cwrs ar gyfer dechreuwy'r a'r rhai sy'n fwy profiadol.

Gostyngiad o 50% yn bosibl i'r rhai sy'n gymwys ac i'r rhai sydd ddim yn gymwys mae pris gostyngol ar gael os byddwch yn talu cyn 31 Gorffennaf 2006.

**Cysylltwch â ni am ragor o fanylion ar 029 2087 4710
neu anfonwch e-bost atom: canolfan@caerdydd.ac.uk**

Eisteddfod

GENEDLAETHOL CYMRU

NEWYDDION O SWYDDFA'R EISTEDDFOD

Pwyllgorau Testunau

Bydd y Pwyllgorau Testunau yn cael eu sefydlu yn yr Hydref, gan gynnwys Pwyllgorau: Cerdd, Cerdd Dant, Alawon Gwerin, Dawns, Llenyddiaeth, Llefaru, Celfyddydau Gweledol, Dysgwyr, Drama, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Gwaith yr is-bwyllgorau hyn yw dewis y testunau, themâu, beirniaid, cyfeilyddion, ac yn y blaen ar gyfer y Rhestr Testunau yn ogystal â threfnu'r holl bafiliynau amrywiol a'r gweithgareddau niferus ar Faes yr Eisteddfod - er enghraifft, digwyddiadau y Babell Lân, Neuadd Ddawns, Arddangosfa Celf a Chreffft, Pabell Gwyddoniaeth a Thechnoleg ac yn y blaen. Yn ogystal â'r uchod, ceir pedwar is-bwyllgor arall, nad ydynt yn ymwneud â chystadlaethau yn benodol, sef Llety a Chroeso, Maes B, Technegol a Cyllid: bydd y rhain yn cael yn cael eu sefydlu yn 2007.

Gwobrau

Mae cyflwyno gwobr yn ffordd dda o gefnogi'r Eisteddfod a phetai gennych chi, neu fudiad neu gymdeithas yr ydych yn perthyn iddo, ddiddordeb mewn cyflwyno gwobr, yna peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni. Mae gwobrau yn amrywio o £20 i £1000, yn dibynnu ar y gystadleuaeth.

Eisoes mae'r Goron a'r Gadair wedi eu cynnig; y Gadair gan Ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r wobwr ariannol gan Sally Hughes a'i merch, Olwen, er cof am Dr John Hughes, Casnewydd. Bydd y Gadair yn cael ei chynllunio gan Bethan Grey, cyn-ddisgybl o Ysgol Glantaf sydd erbyn hyn yn cynllunio i gwmi Habitat. Mae'r Goron a'r wobwr ariannol yn rhoddedig gan Brifysgol Caerdydd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi'r Eisteddfod yn y ffordd hon, yna cysylltwch â'r Trefnydd, Hywel Wyn Edwards, yn Swyddfa'r Eisteddfod ar 0845 122 2003; hywel@eisteddfod.org.uk.

Pwyllgorau Apêl:

Erbyn hyn mae Pwyllgorau Apêl wedi eu sefydlu ar gyfer nifer o ardaloedd, a swyddogion wedi eu hethol:

Rhiwbina a Llanisien - Cadeirydd: Alun Guy (029 2062 3704).

Llandaf a Thyllgoed - Cadeirydd: D. Bryan James (029 2056 6731). Cyfarfod nesaf - 12 Medi am 7.30pm yn yr Institute, Llandaf.

Radur, Treforgan a Pharc Radur - Cadeirydd: Marian Evans (029 2084 3275).

Grangetown, Glanrafon a Tre-Bute: Cadeirydd: Ali Yassine (aliyassine@hotmail.com). Cyfarfod nesaf - 18 Gorffennaf am 7.30pm yn y Cornwall, Grangetown.

Treganna, Pontcanna a Pharc Fictoria: Cadeirydd: Alun Wyn Phillips (aled.wyn.phillips@btinternet.com).

Cyfarfod nesaf - 12 Gorffennaf am 7.30pm yn y Duke of Clarence, Heol Clive.

Gabalfa, Y Mynydd Bychan a Llwynbedw: Cadeirydd: Alun Treharne (029 2075 4436). Cyfarfod nesaf - 6 Gorffennaf am 8.00pm yng Nghanolfan Gymunedol Heol Maes-y-Coed.

Yr Eglwys Newydd ac Ystum Taf: Cadeirydd: Delwyn Siôn (029 2063 0207 / d.sion@ntlworld.com).

Yn anffodus nid oedd ymateb da iawn i'r cyfarfodydd yn ardaloedd y Rhath, Cathays, Adamsdown a'r Sblot; Llanrhymni, Tredelerch, Trowbridge, Pen-twyn a Phontprennau; na Llys-faen, Draenen Pen-y-graig, Draethen a Rhydri. Os oes diddordeb gennych helpu yn yr ardaloedd hyn, cysylltwch â ni yn y Swyddfa.

Bydd y Pwyllgorau Apêl canlynol yn cael eu ffurfio fel a ganlyn:

Creigiau, Pentyrch, Gwaelod-y-garth a Ffynnon Taf - Nos Lun, 3 Gorffennaf am 7.00pm yn Neuadd y Pentre, Pentyrch.

Cyncoed, Pen-y-lan a Llanedern - Nos Lun, 10 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn Nhafarn y Discovery, Heol Celyn, Cyncoed.

Y mae hefyd yn fwriad trefnu Pwyllgor Apêl ar gyfer ardal Sain Ffagan, Llanbedr-y-fro, Y Ddorop, Caerau a Threlái - dyddiad i'w gadarnhau.

Os oes diddordeb gennych mewn cynorthwyo drwy ymuno â rhai o'r pwyllgorau uchod, yna cysylltwch â Sioned neu Lowri yn Swyddfa'r Eisteddfod drwy ffonio 029 2076 3777 neu e-bostio sioned@eisteddfod.org.uk.

Newyddion

Noson i Goffio Linda ac Ursula

Trefnodd Julia Burns, yr Eglwys Newydd, a ffrind y diweddar Linda Moran, Llandaf, ac Ursula Thomas, Pentyrch, a fu farw o ganser, noson er cof amdanynt yn nhafarn y Mochyn Du nos Iau 25 Mai. Daeth lluo o ffrindiau'r ddwy ynghyd, ac ar ôl bwyta cawl blasus, diddanwyd pawb gan gantorion o'r Coleg Cerdd a Drama a'r gantores Heather Jones. Cafwyd eitemau byrfyfyr gan Huw Jones ac Eirlys Parry. Bu Gareth a Morfydd Hughes, perchnogion y Mochyn Du, yn hael eu croeso, a rhennir yr elw o dros fil o bunnoedd rhwng Hosbis Marie Curie, Penarth, a'r ymchwil i ganser. Llongyfarchiadau i Julie Burns ar ei hymdrechion i goffio'r ddwy.

Taith Flynyddol Tŷ'r Cymry

Fe'i cynhaliwyd ar ddydd hwyaf y flwyddyn, sef 21 Mehefin, pan aeth 16 o aelodau'r Tŷ draw i gyfeiriad y Barri ac Ynys y Barri. Cafwyd pryd o fwyd a chyfle i gymdeithasu yn nhafarn y Llory, ac ymunodd Rachel Williams a'i merch Siân â ni, sef wyres a gorwyres Lewis Williams a gyflwynodd 11 Heol Gordon, y Rhath, i ofal Cymry'r ddinas i fod yn ganolfan Gymraeg iddyn nhw. Cafwyd sgwrs fer gan Rachel Williams am ei thad-cu cyn troi am adref.

Cydymdeimlo

Bu farw Lisbeth David, Llandaf. Wedi ymddeol, ei bywyd oedd y gadeirlan a phentref Llandaf. Nid oedd y Gymraeg ganddi ond ymhyfyddodd yn nhwrf Ysgol Pencae. Mynnodd le teulung i'r ysgol yn y gyfrol *Llandaff 2000* a mynych fu ei hymweliadau â'r ysgol. Coffa da amdani a heddwch i'w llwch.

Yn dawel yn Hosbis Marie Curie ym Mhenarth ar 22 Mai, bu farw Rhiannon Bevan, gwraig John Bevan, yn 69 oed. Cynhaliwyd angladd i'r teulu yn unig yng Nghapel Clawddcoch, Tanglwst, a chynhaliwyd gwasanaeth er cof amdani yng Nghapel Bethel, Drefach Felindre, Llandysul, ar 3 Mehefin. Roedd hi'n ferch alluog a bu'n gwasanaethu mewn gwahanol swyddi, ond fe'i cofir yn bennaf, hwyrach, am ei gwaith efo Sefydliad y Merched. Bu'n Bennaeth Swyddfa Cymru y mudiad am dros ugain mlynedd ac yna, yn 1994, daeth yn Ysgrifennydd Cyffredinol Ffederasiwn Prydain y W.I. nes iddi ymddeol. Derbyniodd OBE am ei gwaith. Cydymdeimlir â'i gŵr a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlir â theulu y diweddar Olwen George, y Mynydd Bychan, a fu farw yn dawel yng Nghartref 'Manor House' yn San Hilari yn y Fro ar 7 Mehefin. Bu'r angladd ar 20 Mehefin yn Amlogfa'r Ddraenen, Llanisien.

Diwedd y Daith i Sefydlydd Cwmni Thayers

Bu farw Cyril Thayer, sefydlydd Cwmni Hufen Iâ Thayers yn ysbyty'r Brifysgol ar 16 Mai yn 91 oed. Dechreuodd wneud yr hufen iâ, a ddaeth yn enwog yng Nghaerdydd a'r cylch, yn ei siop yn Heol Wellfield, y Rhath, nôl ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf. Daeth ei hufen iâ yn boblogaidd a sefydlodd ffatri hufen iâ yn Heol Wentllwg, Tredelerch, Caerdydd. Gwerthodd ei fusnes yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled. Bu'r angladd yn Eglwys St Denys yn Llys-faen ar 26 Mai ac yn dilyn yn Amlogfa'r Ddraenen yn Llanisien.

AR WERTH

Piano Bechstein Mawr (Grand Piano)

Bechstein modern o'r 1980au.

**5'10". Model M. Coedyn Mahogani Sgleiniog hyfryd.
Cyflwr fel newydd. £15,000 neu'r cynnig agosaf**

**Cysylltwch â Rhodri Evans ar
07886792470 neu 01554 771469.**



www.mentercaerdydd.org
029 20565658


Hoffai Menter Caerdydd ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant Tafwyl - Gŵyl Gymraeg gyntaf Caerdydd ym mis Mehefin. Y gobaith nawr yw cynnal yr Ŵyl yn flynyddol drwy gydweithio â phartneriaid Cymraeg y ddinas. Dyma flas ar weithgareddau'r wythnos...



Ryland Teifi a'r Band yn Ffair Tafwyl



Gweithdy Chwaraeon ar Gaeau Pontcanna



Afal Tango o Ysgol Plasmawr yn y Gig Ieuenctid yng Nghlwb Ifor Bach



STYDS – Enillywr Cystadleuaeth Rygbi 'Touch' Tafwyl



Gethin Jones, cyflwynydd Blue Peter, agorodd yr Ŵyl yn swyddogol yn y Ffair.



Rhai o griw'r Bore Coffi Dysgwyr gyda Eiry Palfrey, Gareth Roberts a Nia Parry.



Gweithdy Clocio yn Sain Ffagan



CNL : Tîm Buddugol Cystadleuaeth 5 Bob Ochr yr Ŵyl



Dylan Ebenezer yn trio cadw trefn ar y Beirdd a'r Rapwyr.



Triogel yn Hwyl yr Ŵyl



Daeth cannoedd o ddawnswyr ynghyd yn y Bae brynhawn Sadwrn yn ystod Gŵyl Ifan

Dylan Jones

Gwasanaeth adeiladu a dylunio gerddi.

Ffon cartref : 20512567

Symudol : 07890134514

Newyddion o'r Eglwysi

Ebeneser, Heol Siarl

'Pobl y Ffordd' – Alun Tudur

Nos Fercher, 24 Mai daeth tua hanner cant ynghyd i Ebeneser i noson lansio'r llyfr, 'Pobl y Ffordd' gan Alun Tudur. Llyfr yw hwn yn croniclo hanes 100 o Gristnogion Cymru. Cyflwynwyd y llyfr yn swyddogol i'r Parch Alun Tudur gan gyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair, y Parch Aled Davies, a oedd yn gyfrifol am gyhoeddi'r llyfr. Cyflwynwyd copi hefyd i Malcolm Thomas, ein hysgrifennydd. Cafwyd blas o'r llyfr drwy ddarlleniaidau gan Arfon Jones, a Siôn Tudur, sef wŷr y Parch Ddr R Tudur Jones, un o'r cant yn y llyfr. Cafwyd deawd gan Arwel ac Eleri Peleg Williams a darlenniad o un o gerddi Gwenallt, sydd â'i hanes yn y llyfr hefyd, gan Marged Jones. Diolchwyd i Alun am y llyfr gan Rheinallt Thomas, sydd ar bywllgor Cyhoeddiadau'r Gair. Mae'r llyfr yn lafur cariad, rhai misoedd o waith ymchwil ac yn sicr yn werth ei brynu a'i ddarllen. Mynnwch gopi o'ch siop lyfrau.

Bedydd

Ar fore Sul, 4 Mehefin bedyddiwyd Bethan Rhiannon, merch Anwen a Gareth Carwyn Jones a chwaer fach i Catrin. Pleser oedd cael cwmni'r teulu estynedig a nifer o'u ffrindiau yn yr achlysur hapus.

Aelod newydd

Derbyniwyd aelod newydd i'n plith yn yr oedfa gymun ar nos Sul, 4 Mehefin. Mae Edward Bate, sy'n wreiddiol o Benclawdd, wedi bod yn rhan o'n teulu yn Ebeneser ers peth amser ac eisoes wedi cyfrannu'n helaeth i'r gwasanaethau drwy'i ddawn ar yr organ, allweddell a'r piano.

Cwrs Alpha

Cynhaliwyd y cwrs Alpha cyntaf yn ystod Gwanwyn 2005, ac erbyn hyn rydym tua hanner ffordd drwy'r ail gwrs. Ar ôl pryd o fwyd ar ddechrau'r noson, agorir y sesiwn drwy weddi fer ac yna fideo sy'n arwain i drafodaeth lle cawn ein herio i feddwl yn ddwfn am ein crefydd, am Grist, a phynciau megis - Pam gweddio? a Sut ddylen ni weddio? Drwy'r cwrs, mae'n bwysig rhannu syniadau a gwrandao ar farn eraill er mwyn gwerthuso a hunan arfarnu. Rhan bwysig o'r cwrs yw creu cyfle i gymdeithasu a chyfathrebu mewn grŵp bach a dod i adnabod ein gilydd yn well sydd wedi arwain at ryw agosatrwydd cynnes.

Tabernacl, Yr Ais

Ymdeoliad ysgrifennydd yr eglwys

Yn dilyn cyfarwyddyd ei feddyg, dymunodd Mr Gwenallt Rees gael ei ryddhau o gyfrifoldebau ysgrifenyddiaeth yr eglwys ddiwedd mis Mai. Er mai tymor byr fu ei wasanaeth, bu ei gyfraniad yn sylweddol. Diolchwn iddo am wasanaeth sylweddol a thrylwyr, gan obeithio y daw gwellhad buan i'w bryderon meddygol. Dewiswyd dau o'r diaconiaid i rannu dyletswyddau'r swydd, sef Eirlys Pritchard Jones a Marc Jon Williams.

Cofio Cit Boobier

Er bod Cit Boobier wedi bod yn sâl ers tro, daeth y diwedd yn rhyfeddol o sydyn yn Ysbyty Llandochoau. Roedd yn berson annibynnol ei barn a chadarn ei ffydd a'i hargyhoeddiadau. Bu'n ffyddlon iddyn nhw ar hyd ei hoes - yn deyrngar i'r iaith Gymraeg ac i gymdeithas yr eglwys. Cofiw'n amdanu gydag anwylded ac estyn i'w phlant, David a Siân a'u teuluoedd hwythau ein cydymdeimlad mwyaf didwyll.

Cyhoeddi Llyfr Gwedd

Yn ystod mis Mai, lansiodd 'Gweddau'r Pedwar Tymor', sef cyfieithiad y Gweinidog o lyfr gwedd Nick Fawcett, 'Prayers for All Seasons'. Mae 320 o weddiâu ynddo, sy'n addas at ddefosiwn cyhoeddus neu at ddefnydd myfyrodau personol. Mae copïau ar werth yn y siopau Cymraeg, neu drwy law swyddogion y Tabernacl.

Cyngerdd Cantemus

Diolch i bawb a'u rhan o lwyddiant y noson hon. Mwynhawyd cyngerdd safonol gydag amrywiaeth o ddisgyblaethau cerddorol.

Cronfa Codi Clinig Caselin

Diolch i Alan ac Alwen Kemp am drefnu cinio ar 7 Mai i chwyddo'r casgliad i Glinig Casalin yn Lesotho, ac i Diana Owen am yr un gymwynas ar 19 Mai. Cynhaliwyd barbeciw ar 9 Mehefin yn nhŷ Eluned ac Owen Rook ac ar yr 20fed o'r mis cafwyd orig ddedwydd wrth rannu cinio yng nghartref Mari Rogers.

Y Sadwrn blaenorol mewn arwerthiant cist ceir yn marchnad Sblot codwyd £440 tuag at y gronfa. Erbyn hyn rydym wedi cyrraedd ein targed cyntaf o £16,000 a'r gronfa nawr yn £17,500. Codi'r adeilad yn unig oedd y targed gwreiddiol - y cam nesaf fydd dodrefnu a sicrhau offer meddygol i'r clinig.

Pedestreddio'r Ais

Cynhaliwyd yr Archwiliad ganol fis Mai gerbron Mr Bob Gardener, a bydd yntau yn cyflwyno ei adroddiad i Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y ddeufis nesaf. Cyfrifoldeb y Gweinidog, Mr Andrew Davies ar hyn o bryd, fydd ymateb i'r arweiniad a ddaw oddi wrth Mr Gardener, a dyfarnu ar yr achos.

Minny Street, Caerdydd

Cydymdeimlo

Bu farw un o'n haelodau hynaf, Mrs Olwen George, Manor House, Saint Hilari (gynt o'r Mynydd Bychan) ym mis Mehefin. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu.

Cymun Teithiol

Yn dilyn nawdd dan AGAPE, cynllun cenhadol Undeb yr Annibynwyr, mae rhai o'n haelodau bellach yn derbyn Cymun yn eu cartrefi adeg Oedfa Gymun ar y Sul. Fel rhan o'r gwasanaeth yn y capel, mae nifer o aelodau yn mynd o'r capel ac yn teithio i gartrefi i arwain oedfa fer a gweinyddu'r Cymun i aelodau sy'n methu bod yn bresennol yn y capel. Nid yn unig mae'r cynllun yn profi'n fendithiol i'r gweinyddwyr a'r derbynwyr ond hefyd mae'n cryfhau'r ymdeimlad o berthyn rhwng yr aelodau sydd yn bresennol yn y capel a'r rhai sy'n methu dod.

Gwibdaith y Gymdeithas

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe oedd cyrchfan gwibdaith y Gymdeithas ar ddydd Sadwrn cynnes, heulog ganol mis Mehefin. Cyn ymweld â'r amgueddfa newydd, ryngweithiol, ddi-ddorol hon cafwyd cyfle i ymweld â phentref Felindre, cartref yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, a theithio drwy Langyfelach, Mynydd Bach, Tir Deunaw a Threboeth. Ychwanegwyd at fwynhad y daith wrth i ni gael gwybod ychydig yn rhagor am yr ardal a'i hanes. Trefnwyd cinio blasus yng Ngwesty Morgan a chyfle wedyn i grwydro o amgylch yr amgueddfa cyn dychwelyd i Minny Street. Diolch i'r trefnwyr a'r cyfranwyr am sicrhau diwrnod hwylus o fwynhau cwmniaeth, cyfle i ddod i adnabod ardal yr Eisteddfod ychydig yn well a chyfle i ymweld ag un o sefydliadau mwyaf newydd Amgueddfa Cymru.

Sefydlu Archif

Mae canrif a chwarter ymron wedi mynd heibio ers sefydlu'r achos ym Minny Street a thros y blynyddoedd hynny mae nifer helaeth o gofnodion, adroddiadau a lluniau wedi cronni yn y capel. Penderfynwyd creu archif i roi trefn ar y ddeunyddiau hyn ac i'w diogelu. Eisoes gwahoddyd holl aelodau'r eglwys i anfon unrhyw ddeunyddiau a allai fod ganddynt ond byddem yn ddiolchgar hefyd pe bai darllenwyr Y Dinesydd yn fodlon cyfrannu unrhyw ddeunyddiau (neu yn fodlon inni wneud copïau ohonynt) sydd ynghlwm â hanes yr eglwys mewn unrhyw fodd. Os oes gan unrhyw un ddeunydd o'r fath byddai'r Ysgrifennydd, Bethan Jones (ffôn: 2022 3657) yn falch iawn i glywed gennyh.

Casgliadau Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a ymatebodd i'r cais am gasglwyr yn ystod yr wythnos eleni, pan gasglwyd £590. Rydym yn fawr ein dyled i Graham a Mary Thomas.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG - WELSH
LANGUAGE BOARD



I'R CYHOEDDIAD HWN
www.bwrdd-yr-iaith.org

Salem, Treganna

Bedydd

Bedyddiwyd Ffred, mab Mike a Haf Hayes a brawd Marged ar 18 Mehefin. Llongyfarchiadau iddynt a dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

Criced

Rydym wedi chwarae sawl gêm o griced yn ystod y mis a aeth heibio, yn erbyn Staff Plasmawr, sylwebwyr adran chwaraeon Radio Cymru a'r Crwys. Roeddent yn gemau clos, ac fe gawsom nosweithiau hafaidd braf yn eu cwmni. Diolch i bawb am eu brwdfrydedd a'u cyfeillgarwch.

Agoriad Estyniad Salem

Yn sgil gorffen y gwaith ar estyniad newydd Salem ddechrau'r haf, cawsom ddathliad i nodi'r garreg filltir bwysig hon yn hanes Salem ddydd Sadwrn, 17 Mehefin. Daeth dros 300 o aelodau a ffrindiau Salem ynghyd i ddathlu, wrth i aelodau iau a hŷn yr Ysgol Sul gymryd rhannau arweiniol, yn ogystal ag aelodau o bob oed. Cawsom wasanaeth anffurfiol a llawen, cyn i bawb symud i'r maes parcio i glywed gair gan Y Parch John Tudno fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, cyn cael mynediad i'r estyniad. Agorwyd yr estyniad yn swyddogol gan Mrs May Blower, sydd wedi bod yn aelod yn Salem yn hirach na neb, wrth iddi dorri'r rhuban a derbyn tusw o flodau. Cawsom de a lluniaeth ysgafn ac roedd pawb wedi gwirioni â'r estyniad glân a phwrpasol. Bydd yn wych i'r Ysgol Sul, i'r capel ac i'r gymdeithas ehangach yma yn Salem, wrth gynnal ein crefydd a'n Cymreictod yn ein hardal. Mae'n ddiwrnod a fydd yn aros yn hir yn y cof. Diolch i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd tuag at y nod o weld yr estyniad ar ei draed ac ar y diwrnod.

Bethel, Rhiwbina

Penderfynodd aelodau'r Ysgol Sul gasglu ar gyfer y Genhadaeth Dramor mewn modd ychydig yn wahanol eleni, drwy gael stondin mewn arwerthiant cist car. Bu chwech o'r aelodau - Rebecca, Miriam, Osian, Sylvan, Carwyn ac Iestyn - yn brysur am oriau yn gwerthu pob math o nwyddau gyda chymorth y Gweinidog ac athrawesau'r Ysgol Sul. Casglwyd £75 tuag at y Genhadaeth.

ANGEN

Cymraes, yn Ngogledd Llundain, o fis Medi ymlaen i warchod dwy ferch 9 a 5 oed o 3 y.p. hyd 7 y.h.

Ffoniwch: 020 83419888 am wybodaeth.



May Blower dorrodd y rhuban. Mae May wedi bod yn aelod yn Salem am dros 70 o flynyddoedd.

Eglwys y Crwys

Criced

Bu'r tîm criced yn llwyddiannus iawn yn ei gêm flynyddol yn erbyn tîm yn cynrychioli Capel Salem, Treganna. Rhaid canmol ymdrech pawb i sicrhau y fuddugoliaeth hon, yn enwedig dau o'r to ifanc, sef Robert Bowen a Meilyr James.

Y Gymdeithas Ddrama

Mae'r gymdeithas ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer perfformio cyfieithiad clasurol T James Jones o'r ddrama enwog i leisiau, 'Under Milk Wood' yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Abertawe ym mis Awst. Perfformir Dan y Wenallt yn Theatr y Maes, brynhawn dydd Sul 6 Awst am 4.30.

Clwb Teithio '91

Erbyn i chi ddarllen yr adroddiad hwn, bydd Clwb Teithio '91 wedi ymweld â'r Eisteddfod Ryngwladol yn Llangollen. Eleni, bydd yr Eisteddfod yn dathlu ei phen-blwydd yn drigain mlwydd oed, a chafodd selogion '91 gyfle i ymuno yn y dathliadau. Cyn ymweld â'r wyl, cafwyd noson hyfryd o fwrw trem yn ôl yng nghwmni Mr Alan Kemp, un o hyrwyddwyr cymdeithas y cefnogwyr.

Mae Mr Aled Evans, ar y cyd gyda chwmmi teithio Seren Arian, yn trefnu taith i Iwerddon yn ystod mis Medi, ac os carech gael mwy o wybodaeth am y daith arbennig hon, cysylltwch ag Aled ar 029 20494376.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yng nghartref Dr a Mrs J Henry Jones fore Sadwrn, 10 Mehefin. Gwnaed elw o ryw £500 ac fe'i cyflwynir yn rhodd anrhydeddus i'r Cylch Cymorth i'w rannu rhwng nifer o elusennau.

Yr Ysgol Sul

Bydd Tymor yr Ysgol Sul yn dirwyn i ben gydag ymweliad â Pharc Gwledig Porth Ceri, sydd wedi ei leoli ar yr arfordir rhwng pentref y Rhws a thref y Barri. Yma bydd cyfle i'r plant fwynhau ychydig o fywyd awyr agored, chwaraeon a chyfleusterau'r parc antur.

Crefft yn y Ddinas

Does dim rhaid mynd mor bell â Sain Ffagan i weld gwaith crefft Cymreig. Mae enghraifft ohono yn blodeuo mewn lôn gefn y tu ôl i Tudor Street yng nghanol y ddinas. Wrth adael yr orsaf ganolog, ewch heibio i'r holl siopau egsoftig, a throwch i'r chwith cyn i chi gyrraedd y Gwrddwara. Yno, cyn i chi gyrraedd pont y rheilffordd, mae troad i'r chwith gogyfer â siop fwyd Al-Amin - ac yno, tu ôl i ddrws glas fel y môr, mae stiwdio Lowri Davies.

Gweithio mewn cerameg mae Lowri, a'i hysbrydoliaeth yw traddodiadau a delweddau Cymru. Efallai i chi weld ei menywod bach, yn y wisg Gymreig draddodiadol, yn yr Eisteddfod, neu yn un o'n hangueddffeydd. Dyna nhw, yn dwt ac yn deche, yn cynnal côr neu de parti, yn union fel delweddau'r cardiau post fu mor boblogaidd ganrif yn ôl.



Mae arddangosfa newydd gan Lowri i'w gweld yn Rhuthun ar hyn o bryd, a bydd yn teithio Cymru yn ystod y flwyddyn nesaf. Dyma'r menywod bach eto, ond yn cadw cwmni iddyn nhw mae casgliadau newydd sydd hefyd yn rhoi gwedd newydd ar hen bethau, ac yn peri i ni ailystyried rhai o'n creiriau a'n credoau. Mae fersiynau newydd o'r cofroddion cerameg oedd hefyd yn boblogaidd ganrif yn ôl - ond sydd yn newid yn nwylo Lowri. Dyma jwg bach yn dangos pont enwog Pontypridd - ond gyda'r bont fodern yn gefndir iddi.

Mae darnau eraill wedi eu hysbrydoli gan y straeon ysbryd oedd yn codi ofn arnon ni pan yn blant. Addurnir darnau syml eraill gyda phortreadau celfydd o flodau'r maes - ac o offer cyfarwydd gwaith y gegin. Mae platiâu yma hefyd yn dangos rhai o gapeli Cymru ar eu newydd wedd - yn siopau, tafarndai - a mosg. Yr hen draddodiadau trwy lygaid yr ugeinfed ganrif felly: ac yn addas iawn i leoliad stiwdio Lowri hefyd!

www.lowridavies.com

Ysgol Gyfun Plasmawr

TAITH COMENIWS 4-8 MEHEFIN 2006 i CASTELMORON SUR-LOT

Yn dilyn cystadleuaeth yn Ysgol Gyfun Plasmawr yn ymwneud â chofebion y Rhyfel Byd Cyntaf, enillais i a thri aelod arall o Flwyddyn 8 y fraint o ymweld â thref fach yn ne Ffrainc o'r enw Castelmoron sur-Lot. Lanswyd y gystadleuaeth fel rhan o gynllun Comeniws y Senedd Ewropeaidd sy'n hybu cysylltiadau rhwng disgyblion gwledydd Ffrainc, yr Iseldiroedd a Chymru. Wrth ennill y gystadleuaeth, cawsom y fraint o deithio i dde Ffrainc er mwyn cwrdd â disgyblion o'r ddwy wlad arall a oedd hefyd yn ymchwilio i hanes cofebion y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cawsom gwmi pedwar athro o Ysgol Gyfun Plasmawr wrth ymweld â Castelmoron sur-Lot. Teithion ni i Birmingham a hedfan i Bordeaux ac fe logodd yr athrawon ddau gar a fyddai'n ein cludo am ddwy awr i ben y daith. Roedd y croeso yno yn dwymgalon iawn ac arhoson ni gyda theuluoedd lleol yn y pentref. Roedd yn ddifyr ceisio cyfathrebu, gyda'r ychydig o Ffrangeg oedd gennym ni'r plant a'r ychydig o Saesneg oedd gan y Ffrancwyr!

Mae Castelmoron sur-Lot yn enwog yn ne Ffrainc fel man cynhyrchu eirin sych (prŵns) a'r trigolion lleol yn ymfalchïo yn safon uchel y cynhyrchion. Gymaint yw diddordeb y trigolion yn y ffrwyth, mae amgueddfa eirin sych wedi'i hadeiladu yn y dref. Yn dilyn derbyniad yn neuadd y dref, cyflwynwyd basged enfawr o gynhyrchion eirin sych fel cofrodd i bob un o'r ymwelwyr o Gymru – blasus?!!

Bu croeso'r Ffrancwyr yn anhygoel o gyfeillgar ac fe gawsom ein trin fel 'VIPs' drwy gydol yr ymweliad. Teithion ni o gwmpas yr ardal gan ymweld â nifer o bentrefi. Mae'r ymweliad â phentref Monflanquin yn aros yn fy nghof gan fod yr eglwys yno mor brydferth a'r amgueddfa yn ddiddorol iawn. Wrth ddychwelyd i Castelmoron sur-Lot, trefnwyd gwledd ar ein cyfer. Cawsom hwyl wrth wleda a chymdeithasu ac fe ddarparodd y trigolion lleol gyngerdd ar ein cyfer. Rhoddodd hynny gyfle i'r Cymry dalu teyrnged i'r gwsteiwyr ac fe lwyddon ni i drosglwyddo cyflwyniad 'PowerPoint' a pherfformio ychydig o ganeuon Cymreig, gan gynnwys 'Sosban Fach' a 'Hen Wlad fy Nhadau'.

Roedd yn wythnos llawn antur a sbri ac yn ymweliad bythgofiadwy i baw! Byddwn yn cwrdd unwaith eto ag aelodau'r partner-ysgolion gan y bydd carfan o ddisgyblion Ysgol Gyfun Plasmawr yn dychwelyd i Ewrop tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Teimlaf yn ffodus iawn fel aelod o dîm mor freintiedig a hoffwn estyn fy niolchiadau i'r staff am eu gofal drosom a'r holl waith trefnu oedd wedi cyfrannu at lwyddiant yr ymweliad.

Gruffydd Evans Bl 8



Staff a disgyblion Ysgol Plasmawr yng nghwmni gwsteiwyr Castelmoron sur-Lot

PRIFATHRO Y FLWYDDYN

Llongyfarchiadau mawr i Mr Geraint Rees, Pennaeth Ysgol Plasmawr, am ennill gwobr Prifathro y flwyddyn yma yng Nghymru. Gwobrwywyd Mr Rees am ei waith caled mewn seremoni lawn yn Neuadd y Ddinas ddydd Mercher, 21 Mehefin. Enwebwyd ef ar gyfer y wobwr gan Timothy Austin, cyn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Plasmawr, a hynny am iddo sicrhau bod gan bob disgybl y siawns i gyrraedd eu potensial yn yr ysgol. Mae'n Bennaeth llwyddiannus iawn ar yr ysgol ers iddi agor yn 1998 a hoffai pob aelod o staff a disgyblion yr ysgol ei longyfarch a dymuno pob lwc iddo yn y rownd nesaf.

LLWYDDIANNAU

EISTEDDFOD YR URDD

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a wnaeth yn arbennig o dda yn Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych y mis diwethaf. Cymerodd tua 200 o ddisgyblion ran yn yr amrywiaeth o gystadlaethau yn y gogledd.



Jâms Powys a ddaeth yn ail yn y gystadlaethau Llefaryn Unigol bl 7,8,9

Profiad un disgybl

Ychydig wythnosau yn ôl roeddwn i yn un o gannoedd o blant yn Ysgol Gyfun Plasmawr a dreuliodd bedair awr yn teithio i fyny o Gaerdydd i Ruthun i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2006. Y flwyddyn hon cefais gyfle i gystadlu yn y Parti Bechgyn, y Côr, Siarad Cyhoeddus a Detholiad o Sioe Gerdd Jiwddas. Yn ogystal roeddwn i'n rhan o Theatr Ieuenctid Urdd y de, ac ar ddydd



Gruffydd Evans, Gwenan Price, Angharad Goode a Josh Crocker yn mwynhau cwmni'r Ffrancwyr

Mercher mwynhaodd pob un ohonom berfformio o flaen cynulleidfâ fawr. Yn anffodus ni chwasm lwyfan gyda'r Parti Bechgyn na'r Côr, ond roeddwn yn barod yn y rownd derfynol yn y tîm Siarad Cyhoeddus gyda fy nghyd-siaradwyr, Erin Dafydd, Mirain Dafydd ac Eleri Jones. Pan ddaeth yr amser i berfformio roeddwn i ychydig yn nerfus a doedd y ffaith bod fy ffrindiau yn eistedd yn y rhes flaen ddim yn helpu! Cawsom dri phwnc i'w trafod o flaen y gynulleidfâ a'r beirniad. Y pynciau oedd 'Gwell arholiadau na gwaith cwrs', 'Mae addysg rhyw mewn ysgolion yn ddi bwynt' ac 'Mae ffônau symudol mewn ysgolion yn syniad gwael'. Yn ffodus aeth y gystadlaeth yn dda iawn ac enillon ni'r wobwr gyntaf.

Ar ddydd Sadwrn olaf yr Eisteddfod roedd rhaid codi'n gynnar oherwydd bod rhagbrofion Jiwddas am 7.45am. Llwyddom ni, Ysgol Dyffryn Teifi ac Aelwyd yr Ynys i gyrraedd y llwyfan ac wedi perfformiad gwyb cawsom ein gwobrwyo gyda'r wobwr gyntaf! Roedd pawb wrth eu bodau gyda'r canlyniad arbennig ac aeth pob un ohonom yn ôl i'r brifddinas yn hapus wedi wythnos llwyddiannus yn Rhuthun.

Wil Lewis, bl 10

DRINGWR Y FLWYDDYN

Ddydd Iau 20 Gorffennaf, cynhelir cystadleuaeth ddringo Ysgol Plasmawr yng nghanolfan ddringo Trelewis. Am fwy o fanylion cysylltwch â Mr Morgan yn yr adran Addysg Gorfforol

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Ffion Rolph o flwyddyn 13 am ennill Cystadleuaeth Barddoni Iolo Morgannwg Tafod Elái eleni yn y categori i flynyddoedd 12 a 13. Mae Ffion hefyd wedi ei dewis i fod yn aelod o dîm dadlau Cymru. Bydd y tîm yn cystadlu mis nesaf ym Mhencampwriaethau'r Byd yng Nghymru yn erbyn 37 o wledydd. Pob hwyl i ti Ffion!

Côr n'wal

Côr newydd yn cyfarfod bob nos Iau yn Eglwys Bedyddwyr Grangetown, North Clive St, Grangetown. Croeso cynnes i baw! Am fwy o wybodaeth ebostiwcw cor-nwall@hotmail.com

Calendr y Dinesydd

Gwener, 14 Gorffennaf – Llun, 17 Gorffennaf

Cymdeithas Carnhuanawc. Taith i Gernyw (Arweinydd: Keith Bush). Tair noson yn Hayle ger Penzance, canolfan ddelfrydol i grwydro y rhan ddeheuol o'n chwaer wlad Geltaidd. Bydd y daith i lawr i Gernyw ac yn ôl yn weddol hamddenol. Bydd amser i ymweld â Chaerwysg, Bodmin, Wedmoore a manau eraill o ddi-ddordeb. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â acj@onetel.com, neu ffoniwch Catherine Jobbins (029-2062-3275)

Sadwrn, 15 Gorffennaf

Clwb Ifor Bach. Nôl yng Nghymru ac yn gigio am y tro cyntaf ers bron i ddwy flynedd, mae'r TEXAS RADIO BAND ynghanol recordio eto. Am ragor o fanylion, cysylltwch â dai@clwb.net neu 029-2023-2199.

Sadwrn, 29 Gorffennaf

Clwb Ifor Bach. Barod i rrrrocio? Mae CRYD yn ôl, ac yn rhyddhau albym o'u goreuon ar label Sain. Am fanylion, cysylltwch â dai@clwb.net neu 029 2023 2199.

Sadwrn, 5 Awst

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith i Eisteddfod Genedlaethol Abertawe.

Mercher, 6 Medi

Merched y Wawr, Cangen Bro Radur. Sgwrs ar 'Gofal y Croen' gan Marian Fenner, yn festri Capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur, am 7.30pm. Croeso i aelodau newydd ar ddechrau tymor newydd.

Iau, 14 Medi

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd. Oedfa o fawl yng nghwmni'r ifaine, dan ofal Eilonwy Jones, yng Nghapel Minny Street, Cathays, am 7.30pm.

Mawrth, 26 Medi

Noson agoriadol dosbarth nos misol, dan arweiniad Dr E. Wyn James, sy'n trafod cynnyrch Eisteddfod Genedlaethol Abertawe. Yn Ysgol Uwchradd Martin Sant, Hillside, Caerffili, am 7.00pm. Manylion pellach gan Dr Gwen Awbery (029-2087-0000; awbery@caerdydd.ac.uk).

Iau, 28 Medi

'Addurniadau y Rhufeiniaid' – un o gyfres o deithiau tywys Cymraeg o gwmpas orielau'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Yn ystod yr awr ginio, yn dechrau am 1.05pm. Bydd y daith yn addas i ddysgwyr Cymraeg o bob safon. Manylion pellach: 029-2057-3171.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754;

E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Caerdydd: www.echlysur.com

Bws i Eisteddfod Genedlaethol Abertawe

Dydd Mawrth, Awst yr 8fed

Gadael y Mochyn Du 9.30yb
Gadael Maes y 'Steddfod 5.30yp

Tocyn Maes a Bws - £20

Bws yn unig - £10

Plant dros 12 – Tocyn a Bws - £10

Plant dan 12 – Tocyn a Bws - £6

029 20 56 56 58

angharad@mentercaerdydd.org



www.mentercaerdydd.org

YN EISIAU GOFALWR RHAN-AMSER I GAPEL MINNY STREET (Y Waun Ddyfal, Caerdydd)

Mae Eglwys Minny Street yn eglwys fywiog, croesawgar, llawn bwrlwm.

www.minnystreet.org

Y swydd i gynnwys:

dwy ystafell wely, wedi ei lwyr adnewyddu;
telerau i'w trafod.

Y dyletswyddau i gynnwys:

agor a chlo'r Capel a'r Festri pan fo gofyn;
cadw'r Capel a'r Festri yn lân a chymen.

Am ragor o fanylion cysyllter â'r Ysgrifennydd,
Dr Bethan Jones (029 2022 3657)

Os am ymgeisio, danfoner llythyr yn cynnwys manylion perthnasol i'r Ysgrifennydd,
Eglwys Annibynnol Minny Street,
13 Minny Street, Y Waun Ddyfal (Cathays),
Caerdydd CF24 4ER
Dyddiad cau 31/07/2006

Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Oes arnoch chi angen her newydd?
Hoffech chi ddysgu mwy
am y Gymru gyfoes?
Beth am ennill cymhwyster gwerthfawr?

CWRS MEISTR

Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru RHAN AMSER

- 4 modiwl dros 2 flynedd
- 2 benwythnos y flwyddyn
- Cyfres o seminarau
- Traethodau a chyflwyniadau
Traethodawd hir o'ch dewis chi

Cwrs rhan amser trwy gyfrwng y Gymraeg mewn adran flaengar a bywiog

Am fwy o fanylion cysyllter â:
Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru,
Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol,
Prifysgol Cymru, Aberystwyth, SY23 3FE

Ffôn: 01970 622336

E-bost: sgc.iwp@aber.ac.uk

Gwefan: www.aber.ac.uk/interpol/sgc-iwp

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Pencampwr Byd

Mwynhaodd tri o ddisgyblion y profiad arbennig o gystadlu ym mhencampwriaethau *Tae Kwando* a *Kick Boxing* y Byd yn Athen. Enillodd Carys Thomas o 7M fedal aur a dwy fedal efydd. Collodd Rory Coleman o 9A fedal o drwch blewyn ond llwyddodd disgybl arall o 9A, sef Mollie Arbuthnot i ennill medal arian a medal efydd.

Creu Cerddoriaeth ym Mro Morgannwg

I'r rhai ohonom a ddewisodd barhau i astudio cerddoriaeth yn y chweched dosbarth ar ôl ein TGAU, penderfynwyd crwydro oddi ar y llwybr traddodiadol. Yn lle dilyn cwrs traddodiadol cerdd lefel A, penderfynom astudio Tystysgrif Genedlaethol BTEC, Astudiaethau Cerdd Ymarferol, sef cwrs galwedigaethol sydd yn fras, werth dwy lefel A. Rhoddir pwyslais ar berfformio, ymarfer a chreadigrwydd, sy'n caniatáu i ni wella ein sgiliau perfformio unigol ac ensemble. Cawsom gyfle i ddysgu llawer am dechnoleg cerdd mewn gweithdai ymarferol. Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am ystod eang o feysydd ym myd cerddoriaeth, o Jazz yn yr UDA ar ddechrau'r 20^{fed} Ganrif, i'r byd diwydiant cerddoriaeth. Cawsom nifer o weithdai sydd wedi rhoi cipolwg ar fydd diwydiant cerddoriaeth, a hefyd wedi caniatáu i ni wella ein sgiliau cyfansoddi a pherfformio.

Charles Pagler blwyddyn 12



**Hysbyseb
Swydd**

**Swyddog Cyllid Rhan Amser
£8,000 y flwyddyn
15 awr yr wythnos
Cysylltwch a Siân Lewis
029 2056 5658 neu
SianLewis@MenterCaerdydd.org
029 20565658**

TRYDANWR

**gyda dros 20 mlynedd
o brofiad**

**Wedi'i gofrestru gyda NICEIC
i arolygu a gosod
systemau trydan
a chawodydd yn unol â
Rheoliadau Adeiladu Adran "P"**

Prisiau Rhesymol

**Ffoniwch
Caerwyn Davies**

**(T/A Davies Electrical)
ar 029 20868208
neu 07967 558664**

Adroddiad ar Alldaith Gwobr Efydd Dug Caeredin 19-20 Mai 2006.

Ar ôl misoedd o baratoi, daeth yn amser o'r diwedd – roedden ni ar fin cwblhau ymarfer o'n Halldaith Gwobr Efydd Dug Caeredin. Bu'n rhaid i ni wersylla dros nos a cherdded 7 milltir wrth baratoi ar gyfer yr un 'go iawn'.

Ar ôl taith eithaf hir ar y bws, cyrhaeddodd ni Barc Pembre yn y glaw a'r gwynt. Y frwydr nesaf oedd codi ein pebyll heb wlychu yn y glaw! Llwyddodd ni i ryw raddau! Ar ôl creu ein cartrefi newydd, roedd chwant bwyd arnom, ac felly berwon ni ddŵr yn y 'Tranjias' i'w arllwys ar ein 'Pot Noodles' blasus! Roedd y tywydd yn wael drwy'r nos, ac ni lwyddodd unrhyw un i gysgu – gan gynnwys yr athrawon.

Y bore trannoeth am 5.30, dechreuon ni wisgo a choginio breucast. Mwynheais i gig moch a siocled poeth. Roedd yn rhaid i ni ail-bacio ein bagiau ar gyfer y daith gerdded, ac yn olaf, tynnon ni ein pebyll i lawr a'u pacio nhw hefyd. Roedd y pebyll yn drwm oherwydd y glaw a gawsom yn y nos.

Am 9 o'r gloch dechreuon ni gerdded allan o'r parc ar ran gyntaf y daith. Roedd y tywydd dipyn yn well ond roedd y cymylau glaw dal yn fygythiol. Ar ôl tua 5 munud o gerdded, dechreuodd fy ysgwyddau i frifo dan bwysau'r bag enfawr. Rwy'n siŵr fod Miss Evans wedi cael hen ddigon ar bawb yn cwyno yn ystod y daith. Ar sawl adeg teimlais fel rhoi'r ffidil yn y to, ond fe benderfynais barhau, gan feddlw am yr addewid y gwnes i i Mam y diwrnod cynt.

Ar ddiwedd y daith, roeddwn i'n teimlo'n falch iawn mod i wedi cerdded yr holl ffordd, a chadw'r addewid. Roedd y teimlad o gymryd y bag mawr, trwm i ffwrdd yn un bythgofiadwy – roeddwn i'n teimlo fel petai'r byd wedi cael ei godi o f'ysgwyddau, yn llythrennol!

Wedi dweud hynny, does dim ots pa mor anodd oedd yr alldaith hon, rydw i'n barod yn edrych ymlaen at yr un 'go iawn'! Dim

Yn eisiau:

Gofalwraig plant sy'n siarad Cymraeg

i edrych ar ôl 3 phlentyn (2, 4 & 12 oed) yn y Rhath.

Bydd profiad/cymwysterau a geirda yn hanfodol. Bydd hefyd angen trwydded yrru lân a char eich hun. Bydd yn swydd lawn-amser (7.30yb – 4.00yp), yn byw allan, i ddechrau ddiwedd Awst.

Ffoniwch Liz Cameron 02920 481314 / 07921 764411.

ond un peth rwy'n bwriadu ei wneud yn wahanol y tro nesaf: cysgu yn y nos!

Rebekkah Sloper 10R

Serennu ym myd athletau

Llongyfarchiadau i dim athletau merched blynyddoedd 9 & 10 a enillodd Gwpan Athletau Caerdydd a'r Fro ganol mis Mehefin. Byddan nhw nawr yn cystadlu yn rownd derfynol Cymru yn Aberhonddu ddydd Mercher 13 Gorffennaf. Dyma'r ail flwyddyn o'r bron i'r merched gael cystadlu ym Mhencampwriaethau Cymru. Daeth merched blynyddoedd 7 & 8 a bechgyn 7 & 8 yn bedwerydd yn yr un gystadleuaeth.

Sioe Ffasiynau CRYF

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn o ran gweithgareddau y gymdeithas rieni ac athrawon oedd Sioe Ffasiynau a gynhaliwyd yn neuadd yr ysgol ar y 22 Mehefin. Cyflwynodd Nia Roberts a Brynmor Williams lu o athrawon a disgyblion dewr yn modelu dillad o siopau Pebble, Sturff a Marks and Spencers. Mae'r ysgol yn ddyledus iawn i'r criw gweithgar sy'n llywio gweithgareddau CRYF.

Llwyddiant Llwyfan Eisteddfod yr Urdd 2006

Unawd Bl 2 ac iau: 3ydd Maia Wyn Davies, Ysgol Pencae. Côr (Y.C.) Bl 6 ac iau (Ysg. hyd 150) 1af, Ysgol Gynradd Iolo Morgannwg. Unawd Chwythbrennau Bl 6 ac iau: 1af Luis Evans, Ysgol Gynradd Iolo Morgannwg. Unawd Telyn Bl 6 ac iau: 1af Ben Creighton-Griffiths, Ysgol Y Gadeirlan. Unawd Bl 5 a 6: 2il Greta Isaac, Ysgol Gynradd Iolo Morgannwg. Unawd Llinynnol Bl 6 ac iau: 3ydd Luis Evans, Ysgol Gynradd Iolo Morgannwg. Llefaru Unigol Bl 5 a 6: 2il Cadi Dafydd, Ysgol Gymraeg Treganna. Ymgom Bl 6 ac iau: 3ydd, Ysgol Gynradd Pwll Coch. Grwp Dawnsio Disgo Bl 6 ac iau: 3ydd, Ysgol Gymraeg Y Wern. Grwp Llefaru Bl 6 ac iau (D): 1af, Ysgol Gynradd Albert

Unawd Pres Bl 7-9: 1af, Beth Lloyd, Ysgol Y Gadeirlan. Unawd Telyn Bl 7-9: 3ydd, Martha Holeyman, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Llefaru Unigol Bl 7-9 (D): 1af Katie Janes, Ysgol Uwchradd Howell. Grŵp Llefaru Bl 7-9 (D): 1af, Ysgol Uwchradd Howell. Cystadleuaeth y Fedal Ddrama: 1af Ceri Elen, Aelwyd CF1. Unawd Llinynnol Bl 7-9: 3ydd Geraint Ballinger, Ysgol Gyfun Plasmawr. Ensemble Bl 7-9: 1af, Ysgol Gyfun Plasmawr. Llefaru Unigol Bl 7-9: 2il Jâms Powys, Ysgol Gyfun Plasmawr. Cân Actol Bl. 7, 8 a 9: 3ydd, Ysgol Gyfun Plasmawr.

Unawd Bechgyn Bl 10-13: 3ydd Rhydian Marc, Ysgol Gyfun Plasmawr. Unawd Llinynnol Bl 10-13: 3ydd Sebastian Pennar, Ysgol Gyfun Glantaf. Unawd Telyn Bl 10-13: 3ydd Marged Hall, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Tîm Siarad Cyhoeddus (Y.U.) Bl 10-13: 1af, Ysgol Gyfun Plasmawr. Unawd allan o Sioe Gerddorol 14-25 oed: 2il, Rhidian Marc, Ysgol Gyfun Plasmawr. Côr Merched S.S.A. (Aelwyd) 14-25 oed: 3ydd, Aelwyd CF1. Côr Meibion Tri Llais (Aelwyd) 14-25 oed: 3ydd, Aelwyd CF1. Côr S.A.T.B (Aelwyd ac eithro Aelwydydd Colegau) 1af, Aelwyd CF1. Côr S.A.T.B. (Aelwyd) 14-25 oed: 3ydd, Aelwyd CF1. Parti Cerdd Dant (Aelwyd) 14-25 oed: 2il, Aelwyd CF1. Detholiad o Ddrama Gerdd Gymreig 14-25 oed: 1af, Ysgol Gyfun Plasmawr.